Y RHWYDWAITH YMCHWIL IECHYD MEWN YSGOLION
SCHOOL HEALTH RESEARCH NETWORK

Trais wrth fynd allan gyda rhywun neu fod mewn perthynas: dioddef a chyflawni ymysg pobl ifanc yng Nghymru

Brîff Ymchwil Iechyd a Lles Ysgolion, Tachwedd 2019

Yn yr un modd â thrais domestig, mae trais wrth fynd allan gyda rhywun neu fod mewn perthynas yn ystod llencyndod yn cynnwys cam-drin emosiynol, corfforol a rhywiol. Fodd bynnag, gan fod y term trais domestig yn y DU yn cyfeirio at rai 16 oed neu hŷn yn unig, tybir yn aml nad yw'r math hwn o gam-drin yn digwydd ymysg y rheiny dan 16 oed. Felly, nid ydym yn gwybod rhyw lawer am ba mor gyffredin yw'r trais hwn ymysg plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Yr hyn rydym ni eisoes yn ei wybod…

Er nad oes llawer o ymchwil wedi cael ei chynnal ynglŷn â'r maes hwn, cysylltir trais wrth fynd allan gyda rhywun neu fod mewn perthynas ymysg pobl yn eu harddegau â sawl canlyniad negyddol, fel problemau iechyd meddwl, defnyddio sylweddau, beichiogrwydd yn yr arddegau ac anhwylderau bwyta.

Nid yw'n glir beth yw'r berthynas rhwng trais wrth fynd allan gyda rhywun neu fod mewn perthynas a nodweddion cymdeithasol-ddemograffig, fel ethnigrwydd ac amddifadedd.

Mae ymchwil yn UDA yn awgrymu bod cyflawni a dioddef trais wrth fynd allan gyda rhywun neu fod mewn perthynas yn gysylltiedig ymysg rhai 16 oed, sy'n golygu y gall cyflawnwyr trais fod yn ddioddefwyr hefyd.



Yr hyn a wnaethom...

- Defnyddiom ddata gan bob myfyriwr 11-16 oed a gymerodd ran yn Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr 2017 yng Nghymru i archwilio cyfraddau amlygrwydd a phatrymau'r math hwn o drais.
- Dim ond y 74,908 o fyfyrwyr oedd erioed wedi mynd allan gyda rhywun neu fod mewn perthynas gyda rhywun o'r naill ryw neu'r llall gafodd eu holi a oedden nhw wedi profi neu gyflawni trais emosiynol a chorfforol wrth fynd allan gyda rhywun neu fod mewn perthynas.
- Diffiniwyd trais emosiynol fel sylwadau creulon, ac roedd trais corfforol yn cynnwys unrhyw un o'r canlynol: gwthio, taro, pwnio, cicio neu ymosod.
- Dadansoddom ddioddef a chyflawni trais ar wahân, yn ogystal â dioddef a chyflawni oedd yn gorgyffwrdd.
- Dadansoddom batrymau trais wrth fynd allan gyda rhywun neu fod mewn perthynas gan ddefnyddio data'r arolwg ar nodweddion cymdeithasol, gan gynnwys rhywedd, cyfoeth teuluol, ethnigrwydd, oedran a threfniadau byw.

Yn gryno

- **Roedd mwy o ferched wedi dioddef trais emosiynol na bechgyn, ond dywedodd mwy o fechgyn na merched eu bod wedi dioddef yn gorfforol.**
- **Dywedodd cyfran ychydig yn uwch o ferched na bechgyn eu bod wedi cyflawni trais corfforol ac emosiynol mewn perthynas.**
- **O gymharu â myfyrwyr oedd yn byw gyda'u dau riant, roedd pobl ifanc o gartrefi gydag un rhiant neu lys-rieni, a'r rheiny yn y system ofal, yn ychydig fwy tebygol o ddweud eu bod wedi dioddef a/neu gyflawni trais o ryw fath mewn perthynas.**
- **Ni welsom unrhyw gysylltiad rhwng statws cymdeithasol-economaidd teuluoedd a thrais mewn perthynas.**

@SHRNWales
SHRN@caerdydd.ac.u
SHRN.org.uk

Trais wrth fynd allan gyda rhywun neu fod mewn perthynas: dioddef a chyflawni ymysg pobl ifanc yng Nghymru

Yr hyn a ganfuom…

Trais emosiynol wrth fynd allan gyda rhywun neu fod mewn perthynas

- Roedd mwy o ferched (28%) na bechgyn (20%) oedd erioed wedi mynd allan gyda rhywun wedi profi trais emosiynol.
- Hefyd, roedd merched (18%) yn fwy tebygol o gyflawni trais emosiynol wrth fynd allan gyda rhywun na bechgyn (16%).
- Roedd tua 13% o fechgyn a 17% o ferched wedi profi a chyflawni trais emosiynol wrth fynd allan gyda rhywun neu fod mewn perthynas.

Trais corfforol wrth fynd allan gyda rhywun neu fod mewn perthynas

- Yn fras, roedd yr un gyfran o ferched (8%) a bechgyn (7%) oedd erioed wedi mynd allan gyda rhywun wedi cyflawni trais corfforol.
- Yn wahanol i ddioddef yn emosiynol, roedd mwy o fechgyn (17%) na merched (12%) wedi profi trais corfforol wrth fynd allan gyda rhywun.
- Roedd tua 6% o fechgyn a merched wedi profi a chyflawni trais corfforol mewn perthynas.

Patrymau trais wrth fynd allan gyda rhywun neu mewn perthynas

- Gwelwyd patrymau trais yn ôl oedran, ethnigrwydd a threfniadau byw, yn ogystal â rhywedd. Er enghraifft, roedd bechgyn o bob math o gartrefi, ac eithrio'r rhai oedd yn byw gyda'r ddau riant, yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi profi trais corfforol wrth fynd allan gyda rhywun neu fod mewn perthynas.
- Doedd dim patrwm, fodd bynnag, yn ôl cyfoeth teuluol, sy'n golygu bod myfyrwyr o gartrefi mwy cyfoethog yr un mor debygol o adrodd trais mewn perthynas â'r rheiny o gartrefi llai cyfoethog.
- Roedd oedran a rhywedd yn rhyngweithio hefyd, felly wrth i fyfyrwyr fynd yn hŷn, roedd y tebygolrwydd o brofi a chyflawni trais wrth fynd allan gyda rhywun neu fod mewn perthynas yn cynyddu'n gynt i ferched na bechgyn.

Materion i'w hystyried

Dyma oedd yr astudiaeth gynrychiadol genedlaethol gyntaf yn y DU i ystyried trais wrth fynd allan gyda rhywun neu fod mewn perthynas ymysg pobl ifanc 11-16 oed ac i ddadgyfuno trais emosiynol a chorfforol wrth fynd allan gyda rhywun neu fod mewn perthynas.

Cafodd ein holl ddata ei gasglu ar un adeg (arolwg trawstoriadol) felly ni allwn bennu pryd dechreuodd y trais a pha fath o drais ddigwyddodd gyntaf.

Nid ydym yn gwybod chwaith p'un a oedd myfyrwyr a gyflawnodd drais wrth fynd allan gyda rhywun wedi gwneud hynny er mwyn amddiffyn eu hunain.

Roedd nifer yr achosion o drais wrth fynd allan gyda rhywun neu fod mewn perthynas yn is na chanfyddiadau astudiaethau eraill. Gallai hyn fod oherwydd pa mor ifanc oedd ein sampl, gan nad oedd llawer o fyfyrwyr ifanc wedi dweud bod ganddynt brofiad o fynd allan gyda rhywun ac, felly, trais mewn perthynas. Mae'n bosibl bod y stigma sy'n gysylltiedig â bod yn ddioddefwr neu'n gyflawnwr trais wrth fynd allan gyda rhywun neu fod mewn perthynas wedi arwain at beidio rhoi gwybod hefyd.

Beth mae hyn yn ei olygu i'm hysgol i?

- **Mae nifer yr achosion o drais wrth fynd allan gyda rhywun neu fod mewn perthynas ymysg pobl ifanc yng Nghymru yn dangos ei fod yn broblem iechyd cyhoeddus sy'n berthnasol i ysgolion uwchradd.**
- **Mae'r cynnydd o ran oedran ym mhob math o drais mewn perthnasoedd ymysg merched a bechgyn yn amlygu bod angen ymyriadau cynnar, cyffredinol.**
- **Mae gwrthdaro dwyffordd mewn perthnasoedd, lle mae pobl ifanc yn gyflawnwyr ac yn ddioddefwyr trais, yn awgrymu bod angen ymyriadau sy'n canolbwyntio ar ddatblygu perthnasoedd iach.**

Darllenwch y papur ymchwil yn llawn. Gallwch ei lawrlwytho'n rhad ac am ddim yma:

https://doi.org/10.1093/pubmed/fdz084

Young, H. et al (2019) Dating and relationship violence victimization and perpetration among 11-16 year olds in Wales: a cross-sectional analysis of the School Health and Research Network. Journal of Public Health DOI: doi.org/10.1093/pubmed/fdz084

Sefydlwyd y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion gyda grant partneriaeth gan y Cyngor Ymchwil Feddygol (MR/L002787/1) ac fe'i cefnogir gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru trwy'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd a Lles y Boblogaeth ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.